



Yn Bresennol:

Ann Evans, Philip Blaker, Isabel Nisbet, Angela Maguire-Lewis, Robert Lloyd Griffiths, Ellen Donovan, Rheon Tomos, Arun Midha.

Hefyd yn y Cyfarfod:

Alison Standfast, Kate Crabtree, Jo Richards (eitemau 1 i 5), Alison Rees (sylwedydd Llywodraeth Cymru), Helen Bushell (Ysgrifenyddiaeth), Cassy Taylor (eitem 6), Kerry Price (eitemau 1 i 3), Emyr George (eitemau 14 a 15), Tom Anderson (eitemau 12 i 15), Jack Watkins (eitem 8), Catrin Verrall (eitem 15), Rachael Sperring (eitem 14), Kerry Jones (eitem 15), Steve Wyndham (SW) – Swyddfa Archwilio Cymru (eitemau 1 a 2).

Ymddiheuriadau:

Alun Llwyd, Caroline Burt, Claire Morgan, David Jones.

1. Croeso, Ymddiheuriadau, Datganiadau o Fuddiant

- 1.1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn enwedig Arun Midha a benodwyd i'r Bwrdd ar 18 Mai 2017.
- 1.2. Croesawodd y Cadeirydd Steve Wyndham, Swyddfa Archwilio Cymru, hefyd ar gyfer eitem 2 (cyfrifon blynyddol 2016/17).
- 1.3. Ceisiwyd datganiadau o fuddiant. Cafodd y datganiad newydd canlynol ei ddatgan:
 - Angela Maguire-Lewis – yn Bennaeth Prentisiaethau yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro – mewn perthynas ag eitem 6.
- 1.4. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan yr aelodau unrhyw beth roeddent am ei drafod o'r papurau gwybodaeth. Codwyd Cosbau Ariannol ar yr agenda a nododd y Cadeirydd y byddai'r mater yn cael ei drafod ar ôl eitem 8.
- 1.5. Nodwyd yr holl bapurau gwybodaeth a oedd yn weddill (Rhagolwg y Bwrdd, y newyddion diweddaraf ar yr adroddiad blynyddol, cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a gynhaliwyd ar 16 Chwefror 2017).

2. Cyfrifon Blynyddol 2016/17

- 2.1. Cyflwynodd Kerry Price (KP) y papur yn amlinellu'r broses ddatblygu ac adolygu. Cadarnhaodd KP i'r cyfrifon gael eu cyflwyno yn y fformat sy'n ofynnol yn ôl y canllawiau perthnasol a'r cyfarwyddyd cyfrifon.
- 2.2. Cadarnhaodd KP fod Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) wedi cwblhau ei harchwiliad, a brofodd y cyfrifon ar gyfer eu rhesymoldeb a'u cywirdeb.
- 2.3. Gofynnodd KP i'r Bwrdd a oedd ganddo unrhyw ymholiadau – ni chodwyd dim.

- 2.4. Gofynnodd y Cadeirydd i Steve Wyndham (SW) gyflwyno adroddiad SAC. Rhoddodd SW grynodeb o'i adroddiad a chadarnhaodd eu bwriad i gyhoeddi barn archwiliad ddiamod. Cadarnhaodd fod canlyniad yr adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar 11 Gorffennaf.
- 2.5. Roedd y cyfrifon drafft o safon dda ac ni nodwyd gwallau perthnasol na sylweddol. Roedd nifer fach o ddiwygiadau amherthnasol, a gynhowyd yng nghefn yr adroddiad.
- 2.6. Trefnwyd i'r Archwilydd Cyffredinol adolygu a chymeradwyo'r cyfrifon ar 27 Gorffennaf 2017.
- 2.7. Gofynnodd y Bwrdd am farn SW o ran safon cyfrifon Cymwysterau Cymru yng nghyd-destun cyrff cyhoeddus eraill. Dywedodd SW ei bod yn anodd asesu hyn yn ddibynadwy a'i fod yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, ond y byddai safon cyfrifon Cymwysterau Cymru tua'r pen uchaf. Nodwyd bod hyn yn glod i KP a staff eraill yn y sefydliad.
- 2.8. Gwahoddodd y Cadeirydd Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg i gyflwyno ei hadroddiad sicrwydd. Cyflwynodd Angela Maguire-Lewis (AML) ei hadroddiad i'r Bwrdd. Nododd y Bwrdd y cynnwys a diolchodd iddi a'r Pwyllgor am eu gwaith.
- 2.9. Cymeradwyodd y Bwrdd y cyfrifon blynyddol, gan gefnogi'r Prif Swyddog Gweithredol (fel y Swyddog Cyfrifyddu) i lofnodi Cyfrifon 2016/17.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Cymeradwyo Cyfrifon Blynyddol 2016/17 i'r Prif Swyddog Gweithredol eu llofnodi – WEDI'I GYMERADWYO.
- 2.10. Diolchodd y Cadeirydd i SW am ei bresenoldeb yng nghyfarfod y Bwrdd. Yna, gadawodd SW y cyfarfod.

3. Adroddiad Ariannol

- 3.1. Cyflwynodd KP ei bapur ef, a roddodd y newyddion diweddaraf ariannol hyd at ddiwedd mis Mehefin 2017. Roedd y sefyllfa ariannol wedi'i hystyried yn fanwl yng nghyfarfod y Pwyllgor Adnoddau ddechrau mis Gorffennaf a chan y Bwrdd Rheoli ddiwedd mis Gorffennaf.
- 3.2. Atgoffodd KP y Bwrdd fod rhai meysydd cyllideb wedi'u nodi ddechrau'r flwyddyn fel darpariaethau, yn hytrach nag ymrwymadau penodol – cyfanswm y rhain oedd £640k. Roedd gwaith wedi parhau i gadarnhau'r darpariaethau hyn; adlewyrchwyd y rhain yn adran dau y papur. Roedd y darpariaethau wedi'u cadw yng Nghronfa Wrth Gefn y Swyddog Cyfrifyddu er mwyn hyrwyddo tryloywder a gwelededd ar gyfer trefniadau craffu parhaus.

- 3.3. Gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo trosglwyddo £137k o'r gyllideb gyflog i Gronfa Wrth Gefn y Swyddog Cyfrifyddu. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf yn nodi bod y gyllideb gyflog bresennol £137k yn fwy na'r hyn sy'n ofynnol, oherwydd cyfuniad o ddyddiadau dechrau hwyrach nag a fwriadwyd ar gyfer recriwtiaid newydd, cyflogau cychwynnol sy'n is na'r hyn a gyllidebwyd yn wreiddiol, a throsiant staff. Trafododd y Bwrdd y cais a mynegwyd rhywfaint o bryder am sicrhau gwelededd o ran lle y byddai'r £137k yn cael ei ddefnyddio ar ôl ei symud. Esboniodd KP mai diben Cronfa Wrth Gefn y Swyddog Cyfrifyddu oedd rhoi tryloywder a gwelededd o'r holl wariant nad oedd wedi'i ymrwymo'n llawn. Gofynnodd y Bwrdd am wybodaeth o ran lle mae arian a gedwir yng nghyllideb Cronfa Wrth Gefn y Swyddog Cyfrifyddu yn cael ei ddyrannu.
- 3.4. Mynegodd y Bwrdd bryder ei bod yn ymddangos bod pwysau staffio mewn rhai rhannau o'r sefydliad. Cadarnhaodd PB y byddai'r newyddion diweddaraf yn cael ei rannu â'r Prif Swyddog Gweithredol yn ddiweddarach yn yr agenda ynglŷn â staffio ac adolygu blaenoriaethau.
- 3.5. Trafododd y Bwrdd deitl y gyllideb a phenderfynwyd y gallai enw newydd fod yn fwy priodol gan nad yw Cronfa Wrth Gefn y Swyddog Cyfrifyddu, yn dechnegol, yn 'gronfa wrth gefn'.

Cam gweithredu – KP i ystyried enw newydd ar gyfer cyllideb Cronfa Wrth Gefn y Swyddog Cyfrifyddu.

- 3.6. Cadarnhaodd KP fod tanwariant cyllideb yn bosibl yn 2017/18 yn seiliedig ar yr amcanestyniadau presennol. Ychwanegodd PB fod y prif swyddog gweithredol wrthi'n ystyried trefniadau staffio, ond ei fod yn ofalus am ychwanegu at nifer y staff yn barhaol rhag ofn y byddai pwysau ar gyllidebau yn y dyfodol.
- 3.7. Yn dilyn trafodaeth, nododd y Bwrdd y sefyllfa ariannol bresennol a chymeradwyodd drosglwyddo £137k o'r gyllideb gyflog i Gronfa wrth Gefn y Swyddog Cyfrifyddu.

Cam gweithredu – KP i gyflwyno adroddiad i'r Bwrdd yn y dyfodol i esbonio sut roedd arian a oedd yng Nghronfa Wrth Gefn y Swyddog Cyfrifyddu yn cael ei ddyrannu.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Nodi'r sefyllfa ar 30 Mehefin 2017 - WEDI'I NODI;
- ii. Cymeradwyo trosglwyddo £137k o'r gyllideb gyflog i Gronfa Wrth Gefn y Swyddog Cyfrifyddu – WEDI'I GYMERADWYO.

4. Cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 16 Mai 2017 a'r Materion sy'n Codi

- 4.1. Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mai 2017 yn gofnod cywir o'r cyfarfod, yn amodol ar newid i baragraffau 4.14 a 13.3 a mân newidiadau teipograffyddol. Cytunodd y Bwrdd ar y cofnodion Byddai'r cofnodion yn cael eu cyhoeddi ar wefan Cymwysterau Cymru ar ôl eu cyfieithu.
- 4.2. Bwridd y Bwrdd olwg dros y cofnod o gamau gweithredu a oedd wedi'i ddiweddarau i gynnwys cynnydd.

Materion sy'n Codi

- 4.3. Holodd y Bwrdd am y cynnydd mewn perthynas â'r pwyllgor ymchwil/moeseg arfaethedig. Nododd Kate Crabtree (KC) fod hyn yn cael ei ystyried fel pwyllgor/grŵp Cynghorol. Roedd KC yn disgwyl i'r grŵp gael ei sefydlu ddechrau 2018.
- 4.4. Nododd y Cadeirydd y byddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cyfarfod â Julie James AC yn newyddion diweddaraf y Cadeirydd (eitem 5).
- 4.5. Nid oedd materion eraill yn codi.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Cymeradwyodd y Bwrdd y cofnodion gyda mân newidiadau wedi'u nodi.
- ii. Nododd y Bwrdd y cynnydd yn erbyn y camau gweithredu a'r rhai a oedd wedi'u cwblhau.

5. Y diweddaraf gan y Cadeirydd

- 5.1. Adroddodd y Cadeirydd (AE) ar y newyddion diweddaraf i'r Bwrdd a adlewyrchir isod.
- 5.2. Roedd AE a PB wedi cyfarfod ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ddechrau mis Gorffennaf fel rhan o'r cylch blynyddol o gyfarfodydd. Roedd y drafodaeth yn gadarnhaol ac yn adeiladol.
- 5.3. Roedd cyfres o gyfarfodydd briffio Aelodau Cynulliad (AC) wedi'u cynnal gydag ACau y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn amlinellu ein dull gweithredu ar gyfer arholiadau'r haf. Roedd y rhain wedi bod yn gyfarfodydd defnyddiol er mwyn llunio cydberthnasau ag aelodau'r Pwyllgor. Roedd yr ACau wedi gofyn i'r cyfarfodydd briffio hyn fod yn fwy mynych lle mae cynnwys perthnasol a gwnaeth ein hannog i gyfrannu at flog Ymchwilwyr y Cynulliad. O ganlyniad, roedd PB wedi cyfarfod â phrif ymchwilydd y Pwyllgor.
- 5.4. Roedd sesiwn sefydlu i aelodau newydd y Bwrdd wedi'i chynnal ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd ac roedd y Cadeirydd yn barod i gyfarfod â'r ddau aelod newydd ym mis Medi er mwyn adolygu'r sesiwn sefydlu.

- 5.5. Roedd y cyfarfod â'r Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth, Julie James, wedi'i ohirio ar gais Llywodraeth Cymru a'i aildrefnu ar gyfer mis Hydref.
- 5.6. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, Carl Sargeant, wedi ysgrifennu at y Cadeirydd yn ei diweddarau ar nifer o feysydd mewn perthynas â llywodraethu a threfniadau cyhoeddus. Gwnaed cais penodol i gyrff cyhoeddus gefnogi rhaglen fentora ar gyfer Aelodau Bwrdd Anweithredol/Annibynnol yn y dyfodol. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod Cymwysterau Cymru wedi ymateb yn gadarnhaol i'r cais, ond nododd na fyddem mewn sefyllfa i gynnig unrhyw gymorth tan ddechrau 2018. Nododd y Bwrdd y pwysigrwydd y dylai unrhyw leoliad mentora fod yn addas a bod yn rhaid iddo gael canllawiau clir, yn enwedig mewn perthynas â chyfrinachedd. Cytunodd y Cadeirydd â hyn a nodwyd hynny.
- 5.7. Roedd AE wedi cyfarfod â Steve Davies, Cyfarwyddwr Addysg Llywodraeth Cymru, gan gynnal yr amserlen gyfarfodydd chwarterol. Nid oedd dim byd penodol i adrodd arno. Mae'r gydberthynas â Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn gadarnhaol ac yn briodol i'n rôl fel rheoleiddiwr annibynnol.
- 5.8. Dywedodd HB fod adolygiad perfformiad y Cadeirydd wedi'i gynnal a diolchodd i aelodau'r Bwrdd am eu cyfraniad. Roedd RT ac RLG wedi arwain y broses o gasglu adborth a rhannu hyn â'r Cadeirydd. Dywedodd HB fod y broses wedi bod yn drwyadl, yn ddefnyddiol ac yn gadarnhaol, ac y byddai'n dod yn broses flynyddol.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- iii. Cafodd newyddion diweddaraf y Cadeirydd ei nodi gan y Bwrdd.

6. Adolygiad Sector: Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig (AAA)

- 6.1. Ymunodd Cassy Taylor (CT) â'r cyfarfod drwy gynhadledd fideo.
- 6.2. Cyflwynodd CT y papur yn cadarnhau mai diben y bwrdd oedd rhoi'r newyddion diweddaraf am gynnydd i'r Bwrdd mewn perthynas â'r canfyddiadau adolygiad sector a throsolwg o'r ystod o opsiynau tebygol y gellid eu cynnig yn ogystal â'r adroddiad terfynol.
- 6.3. Cadarnhaodd CT fod yr adolygiad sector wedi'i drafod yn fanwl â'r Pwyllgor Rheoleiddio ym mis Mehefin.
- 6.4. Pennodd CT y cyd-destun polisi a newid tirwedd yn Lloegr mewn perthynas â chymwysterau galwedigaethol.
- 6.5. Roedd adolygiad sector AAA wedi defnyddio'r un fethodoleg â'r un a ddefnyddiwyd yn yr adolygiad blaenorol i lechyd a Gofal Cymdeithasol. Fodd bynnag, roedd llawer mwy o ffocws wedi'i roi ar ymgysylltu â rhanddeiliaid. Roedd Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB) wedi bod yn bartner arwyddocaol yn

yr adolygiad ac roedd Cymwysterau Cymru wedi croesawu'r secondiad a oedd wedi'i roi ar waith er mwyn cefnogi'r gwaith.

- 6.6. Roedd ymgysylltu â'r sector, gan gynnwys cyflogwyr a dysgwyr, wedi bod yn ffocws canolog. Roedd sefydliadau Addysg Bellach, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill hefyd wedi cymryd rhan helaeth yn yr adolygiad. Rhoddodd CT wybod i'r bwrdd bod consensws bod angen cynnig newid yn y system gymwysterau, ond bod angen meddwl drwy hynny a'i ystyried yn ofalus.
- 6.7. Trafododd a chyd-drafododd y Bwrdd gynnwys y papur, gan gynnwys ystyried materion megis cyllid, buddiant a chymhellion rhanddeiliaid, y gallu i gyflwyno newid yn y system a dylanwadu ar y newid, goblygiadau ar gyfer NVQs ac asesiadau terfynol, a fforddiadwyedd ar gyfer dysgwyr a Chymru yn ehangach.
- 6.8. Cyd-drafododd y Bwrdd yr angen i Cymwysterau Cymru fod yn siŵr y byddai'r argymhellion a wnaed yn arwain at y newid a ddymunir i'r sector. Roedd hefyd yn bwysig bod yn hyderus y gallai Cymwysterau Cymru ddefnyddio ei rôl mewn unrhyw argymhellion.
- 6.9. Diolchodd y Cadeirydd i CT a'i thîm am eu gwaith a nododd y bwriedir i gam nesaf yr adolygiad sector gael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Hydref 2017. Cynigiodd CT i aelodau'r Bwrdd gysylltu â hi os oeddent am drafod yr adolygiad yn fanylach neu os hoffent drafod unrhyw un o'r newidiadau polisi yn Lloegr.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Nododd y Bwrdd yr adroddiad dros dro ac y byddai cynigion yn cael eu derbyn ym mis Hydref 2017.

7. Trosolwg o Gyfres Arholiadau'r Haf

- 7.1. Cyflwynodd Jo Richards (JR) y papur i'r Bwrdd gyda'r newyddion diweddaraf am gynnydd cyfres arholiadau'r haf yn nodi bod y Pwyllgor Rheoleiddio wedi cael y newyddion diweddaraf manwl yn ei gyfarfod diwethaf ym mis Mehefin.
- 7.2. Cadarnhaodd JR fod yr holl arholiadau ledled Cymru wedi'u sefyll a'i bod yn fodlon ar y cynnydd a wnaed wrth farcio papurau a rhoddodd y newyddion diweddaraf manwl am y digwyddiadau yr adroddwyd arnynt.
- 7.3. Crynhodd JR y data mynediad a thrafododd y Bwrdd hyn yn fanwl, gan nodi nifer uchel y cofrestriadau Blwyddyn 10 o'i chymharu â blynyddoedd blaenorol.
- 7.4. Crynhodd JR fod y cynllun ymgysylltu ar waith a oedd yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd â Llywodraeth Cymru, cyfarfodydd briffio'r cyfryngau, ymgyrch y cyfryngau a'r trefniadau cyfathrebu rheolaidd ag Ofqual a'r CCEA.
- 7.5. Roedd arolwg 'Dweud eich Dweud' wedi dod i ben ac roedd yn cael ei ddadansoddi.

- 7.6. Rhoddodd PB wybod i'r Bwrdd y byddai Cymwysterau Cymru yn mynd i gyfarfodydd trefnedig swyddogion Llywodraeth Cymru ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg cyn diwrnodau canlyniadau ym mis Awst.
- 7.7. Cafodd y Bwrdd drafodaeth hirfaith am y wybodaeth a roddwyd gan JR. Hefyd, trafododd y Bwrdd y risgiau amrywiol a oedd yn bodoli a sut roedd y rhain yn cael eu rheoli a/neu eu lliniaru.
- 7.8. Diolchodd y Bwrdd i JR a'i thîm am eu gwaith. Nododd y Bwrdd ei bod yn debygol y bydd yn haf heriol, ond ei fod yn edrych ymlaen at gael rhagor o newyddion diweddaraf wrth i'r haf fynd rhagddo.

Crynodeb o'r Argymhellion:

Cafodd y newyddion diweddaraf ei nodi gan y Bwrdd – WEDI'I NODI.

8. Polisi Chwythu'r Chwiban (Rheoleiddiol)

- 8.1. Croesawodd y Cadeirydd Jack Watkins (JW) i'r cyfarfod. Cyflwynodd Kate Crabtree (KC) y papur a chadarnhau y gofynnwyd i'r Bwrdd adolygu a chymeradwyo'r polisi dros dro. Roedd y polisi wedi'i lunio a'i adolygu'n ddiweddar drwy'r broses lywodraethu rheolwyr fewnol.
- 8.2. Roedd y polisi'n canolbwyntio ar yr agweddau rheoleiddiol ar ein gwaith (nid staff Cymwysterau Cymru) a bwriadwyd iddo fod dros dro.
- 8.3. Roedd y polisi wedi'i ystyried gan y Pwyllgor Rheoleiddio ac roedd yr adborth a roddwyd wedi'i ystyried a'i ymgorffori lle y bo'n briodol.
- 8.4. Gwnaeth y Bwrdd drafod y polisi a'i gymeradwyo, yn amodol ar ystyried y newidiadau a chatau gweithredu canlynol:
- Dylid ei gwneud yn glir iawn mai polisi dros dro ydoedd
 - Dylai rôl y sefydliad fel corff rhagnodedig gael ei gwneud yn glir
 - Nodwyd newidiadau ar dudalennau 10 a 15.

Cam gweithredu – KC/JW i sicrhau y gwneir y newidiadau i Bolisi Chwythu'r Chwiban (Rheoleiddiol) cyn ei gyhoeddi.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- ii. Gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo cyhoeddi'r polisi fel polisi dros dro – WEDI'I GYMERADWYO yn amodol ar y newidiadau a nodwyd yn 8.4.

Polisi Cosbau Ariannol

- 8.5. Gofynnodd y Bwrdd i'r polisi Cosbau Ariannol, a oedd wedi'i roi fel papur gwybodaeth, gael ei ystyried ar yr agenda.
- 8.6. Trafododd y Bwrdd y dull gweithredu ar gyfer datblygu'r polisi Cosbau Ariannol, gan nodi'n enwedig fod cwblhau'r polisi'n dibynnu ar Lywodraeth Cymru yn cynnal ei hymgyngoriad ei hun ynghylch y ddirwy uchaf y gallai Cymwysterau Cymru ei chyflwyno. Y ddealltwriaeth bresennol â Llywodraeth Cymru yw y byddai'n ymgynghori ar lefel y ddirwy uchaf ar yr un pryd ag y bydd Cymwysterau Cymru yn ymgynghori ar y gyfres o bolisiau gorfodi (sy'n cynnwys Cosbau Ariannol). Trafododd y Bwrdd y risgiau sy'n gysylltiedig â'r dull gweithredu hwn a nododd fod hyn wedi'i ystyried yn fanwl yn y Bwrdd Rheoli a'r Pwyllgor Rheoleiddio.
- 8.7. Daeth y Bwrdd i'r casgliad y dylai'r dull gweithredu presennol barhau, gan nodi bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i ymgynghori ar yr un pryd â Cymwysterau Cymru. Gofynnodd y Bwrdd i ddadansoddiad risg gael ei gynnal rhag ofn nad oedd hyn yn wir ac nad oedd modd cwblhau'r polisi.

Cam gweithredu – KC i ystyried y risg mewn perthynas â dibyniaeth y polisi Cosbau Ariannol ar ymgynghoriad Llywodraeth Cymru.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- iii. Gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo cyhoeddi'r polisi fel polisi dros dro – WEDI'I GYMERADWYO.

9. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol

- 9.1. Cyflwynodd Philip Blaker (PB) ei adroddiad ar lafar gan nodi pum maes i'w diweddarau. Crynhoir y rhain isod.
- 9.2. Tystiolaeth Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cymru – cyflwynodd Alison Standfast (AS), Kerry Price (KP) a PB dystiolaeth ar 29 Mehefin mewn perthynas ag adolygiad y Pwyllgor o Asesiadau Effaith Rheoleiddio a'u cywirdeb. Ni chodwyd materion penodol.
- 9.3. Y newyddion diweddaraf ar Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (CFfDLC) – ers y newyddion diwethaf i'r Bwrdd, cafwyd adborth cadarnhaol gan ein tîm cyfreithiol a'n Huned Nawdd, a chwblhawyd y cynnig drafft a'i gyflwyno i CFfDLC.
- 9.4. Newyddion diweddaraf y cwricwlwm – cadarnhaodd PB fod cam Llinyn 2 Llywodraeth Cymru bellach wedi'i gwblhau, ond bod angen rhagor o waith er mwyn cwblhau'r dogfennau diffiniol. Mae angen y dogfennau hyn er mwyn dechrau gwaith Cymwysterau Cymru i gadarnhau'r effaith ar gymwysterau. Mae Cymwysterau Cymru wedi sefydlu nifer o negeseuon allweddol.
- 9.5. Gofynnodd y Bwrdd am newyddion diweddaraf y cwricwlwm newydd ddechrau 2018.

Cam gweithredu – HB i ychwanegu newyddion diweddaraf y cwricwlwm at y Rhagolwg ar gyfer dechrau 2018.

- 9.6. Mae paragraff 9.6 wedi'i olygu.
- 9.7. Safon T – Cadarnhaodd PB fod trafodaethau'n parhau â'r Adran Addysg (DfE) yn San Steffan, yr adran yn arwain y maes gwaith hwn wrth drosglwyddo i'r Sefydliad Prentisiaethau. Roedd PB ar ddeall y gellid trefnu bod cymwysterau Safon T ar gael yng Nghymru (a manau eraill), ond bod yr Adran Addysg wedi codi rhai pryderon cyfreithiol ynghylch trefnu bod cymwysterau Safon T ar gael y tu allan i Loegr. Cadarnhaodd PB ei fod ef a'i gydweithwyr yn parhau i drafod er mwyn deall y sefyllfa'n well wrth geisio sicrhau y gellid trefnu bod cymwysterau Safon T ar gael yng Nghymru.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Nodi adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol – WEDI'I NODI
- ii. Mae pwynt ii wedi'i olygu.

10. Adroddiad Cynllun Busnes Chwarter Un 2017/18

- 10.1. Cyflwynodd Helen Bushell (HB) y papur sy'n crynhoi'r prif feysydd cynnwys a chadarnhau bod yr holl flaenoriaethau wedi'u sgorio'n wyrdd ac yn unol â'r cynlluniau. Cadarnhaodd HB fod y Pwyllgor Adnoddau wedi adolygu'r cynnydd hyd at ddiwedd mis Mehefin yn fanwl.
- 10.2. Adroddodd HB fod y Bwrdd Rheoli wedi cymeradwyo newid mewn amserlen ar gyfer yr adolygiad Sector TGCh ac na fyddai hyn yn cael ei gyhoeddi yn 2017/18, ond y byddai'n llifo i 2018/19. Nododd y Bwrdd hyn ac atgyfnerthodd ei farn flaenorol am yr angen i ganolbwyntio ar safon adolygiadau sector, nid eu nifer.
- 10.3. Trafododd y Bwrdd yr adroddiad ac roedd wedi'i galonogi bod y risgiau perthnasol wedi'u cynnwys yn y gofrestr risg.
- 10.4. Diolchodd y Bwrdd i HB am y newyddion diweddaraf a nododd yr adroddiad.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Gofynnwyd i'r Bwrdd adolygu a nodi'r adroddiad - WEDI'I NODI.

11. Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth - Gofal Cymdeithasol Cymru

- 11.1. Cyflwynodd KC y papur a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth drafft yn gofyn am adolygiad a chymeradwyaeth gan y Bwrdd. Cadarnhaodd KC fod cyngor cyfreithiol wedi'i geisio a bod paragraff 5.8 wedi'i ychwanegu at y ddogfen yn dilyn cyngor cyfreithiol.

- 11.2. Cadarnhaodd KC fod Memoranda Cyd-ddealltwriaeth ar waith, neu'n cael eu datblygu gyda chydreoleiddwyr lle gall fod dibyniaeth neu rywfaint o orgyffwrdd o ran dyletswyddau. Yn yr achos hwn, mae rhywfaint o orgyffwrdd rhwng Deddf Cymwysterau Cymru a Deddf newydd Gofal Cymdeithasol, felly roedd eglurder rôl a ffyrdd o weithio'n bwysig.
- 11.3. Trafododd y Bwrdd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth drafft, gan ofyn cwestiynau amrywiol er eglurder. Yn dilyn y drafodaeth, cytunodd y Bwrdd i gymeradwyo'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar yr amod ei fod yn cael ei brawfddarllen yn derfynol gan y staff.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Gofynnwyd i'r Bwrdd adolygu a chymeradwyo'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth – WEDI'I GYMERADWYO, ar yr amod ei fod yn cael ei brawfddarllen yn derfynol.

12 Prosiect Data

Y Newyddion Diweddaraf a Chaffael

- 12.1 Croesawodd y Cadeirydd Tom Anderson (TA) i'r cyfarfod. Cyflwynodd Alison Standfast (AS) y papur fel Noddwr Gweithredol y prosiect. Diben y papur oedd rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Bwrdd a cheisio cymeradwyaeth ar gyfer y cais i amrywio.
- 12.2 Atgoffodd AS y Bwrdd fod Cymwysterau Cymru, ar hyn o bryd, yn dibynnu ar Ofqual ar gyfer casglu data cymwysterau gan gyrff dyfarnu a chyhoeddi ystadegau. Mae gan Cymwysterau Cymru strategaeth o annibyniaeth weithredol, felly mae'r prosiect wedi'i sefydlu er mwyn datblygu ein gallu ein hunain yn y maes olaf lle rydym yn dibynnu ar wasanaethau a ddarperir gan Ofqual.
- 12.3 Trafododd y Bwrdd y papur, gan ofyn cwestiynau amrywiol ynghylch math a natur y data i'w casglu, cydymffurfiaeth â deddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) newydd a'r codau ymarfer proffesiynol priodol, y math o gyhoeddiadau a rôl a statws Cymwysterau Cymru fel darparwr ystadegau cenedlaethol. Cafodd y newyddion diweddaraf ei nodi gan y Bwrdd.
- 12.4 Nod ail ran y papur oedd ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd i amrywio o weithdrefnau caffael fel y gall Cymwysterau Cymru osod contract gydag Ofqual i ddarparu gwasanaeth casglu data wrth i Cymwysterau Cymru ddatblygu ei allu ei

hun. Mae'n ofynnol i'r Bwrdd gymeradwyo unrhyw gontract sy'n werth mwy na £100k.

- 12.5 Trafododd y Bwrdd yr amrywiad a phenderfynodd fod hyn yn ateb ymarferol, amser cyfyngedig a chost-effeithiol, felly cymeradwyodd y cais.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Gofynnwyd i'r Bwrdd nodi'r crynodeb o gynnydd ar gyfer y Prosiect Data – WEDI'I NODI.
- ii. Gofynnwyd i'r Bwrdd gytuno ar y cais am gymeradwyaeth i lunio cytundeb dan gontract ag Ofqual ar gyfer darparu gwasanaethau ystadegol sy'n werth mwy na £100k i gyd – WEDI'I GYMERADWYO.

Bwriad i Ymgynghori

- 12.6 Cyflwynodd TA ran nesaf yr eitem ar yr agenda ar gyfer y Prosiect Data, a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y bwriad i ymgynghori ar dempledi data arfaethedig ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol.

Roedd y Bwrdd yn gytûn ei bod yn briodol ymgynghori, ond gofynnodd am amseriad yr ymgynghoriad o ystyried y byddai'n cael ei gynnal yn ystod yr haf ac y byddai ar agor am saith i wyth wythnos. Nodwyd pryder y Bwrdd, ond roedd angen ymgynghoriad er mwyn gallu casglu data ar gyfer cyfres arholiadau mis Tachwedd. Trafododd y Bwrdd y materion a daeth i'r casgliad ei bod yn briodol ymgynghori â chyrrff dyfarnu a chymeradwyodd y cais, ond gofynnwyd i TA ystyried y dyddiad cau hwyraf posibl.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Gofynnwyd i'r Bwrdd adolygu a chymeradwyo'r ymgynghoriad arfaethedig - WEDI'I GYMERADWYO gan nodi'r cais i drefnu bod y dyddiad cau mor hwyr â phosibl.

13 Bwriad i Ymgynghori – Polisiâu Gorfodi

- 13.1 Cyflwynodd KC y papur a'r polisiâu yn yr ymgynghoriad arfaethedig. Y cynnig oedd ymgynghori o ddiwedd mis Hydref am 12 wythnos. Yn dilyn dadansoddiad o'r ymgynghoriad, byddai'r polisiâu'n dychwelyd i'r Bwrdd i'w hadolygu a'u cymeradwyo.

- 13.2 Roedd yr holl bolisiâu wedi bod yn destun adolygiad cyfreithiol, fel polisiâu unigol ac fel cyfres o bolisiâu, ac roedd y newidiadau perthnasol wedi'u gwneud.

- 13.3 Trafododd y Bwrdd y papur a mynegodd rywfaint o bryder am y ddibyniaeth ar Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r polisi Cosbau Ariannol (gweler adran 8 y cofnodion). Cymeradwyodd y Bwrdd y bwriad i ymgynghori.

Crynodeb o'r Argymhellion:

Gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo'r canlynol:

Gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo'r bwriad i ymgynghori ar gyfres o bolisiau gorfodi a chwyno i ddechrau ym mis Hydref 2017 – WEDI'I GYMERADWYO.

14 Ymchwil i Gofrestru'n Gynnar

- 14.1 Ymunodd Emyr George (EG) a Rachael Sperring (RS) â'r cyfarfod. Croesawodd y Cadeirydd RS i'w chyfarfod Bwrdd cyntaf.
- 14.2 Nododd EG gyd-destun yr ymchwil i'r duedd gynyddol ar gyfer arferion cofrestru cynnar a lluosog mewn TGAU.
- 14.3 Rhoddodd y papur y newyddion diweddaraf ar yr amseroldeb ar gyfer cwblhau'r ymchwil, cwmpas yr adolygiad a'r dulliau ymchwil a ddefnyddiwyd, y data a ystyriwyd, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Y bwriad oedd llunio adroddiad ymchwil â sylwadau ategol gan Cymwysterau Cymru yn nodi barn y sefydliad.
- 14.4 Trafododd y Bwrdd yr adroddiad yn fanwl, gan ofyn cwestiynau amrywiol a chyd-drafod amrywiaeth o bwyntiau. Un o'r pwyntiau trafod oedd y diffyg cyfranogiad gan rieni, llywodraethwyr a dysgwyr. Cydnabu'r staff nad oedd hyn wedi'i gynnwys wrth lunio'r ymchwil, ond nad oedd yn bosibl cynnwys y grwpiau hyn mor hwyr yn y prosiect heb gyfaddawdu'r fethodoleg ymchwil. Mynegodd y Bwrdd bryder nad oedd y grwpiau hyn wedi'u cynnwys yn yr ymchwil.
- 14.5 Cadarnhaodd TA ei fod yn hyderus yng nghwmpas yr ymchwil a'i fod yn bodloni brîff yr ymchwil a chwmpas gwreiddiol y gwaith.
- 14.6 Trafododd y Bwrdd a chytunodd ar y dull gweithredu i fynegi barn Cymwysterau Cymru.
- 14.7 Roedd y Bwrdd am atgyfnerthu'r ffaith bod yr ymchwil o safon a diolchodd i'r staff am eu gwaith. Gofynnodd y Bwrdd i ystyriaeth gael ei rhoi mewn prosiectau ymchwil yn y dyfodol, yn enwedig lle y mae o arwyddocâd cenedlaethol, a all y gwaith gael ei rannu â phwyllgor Bwrdd yn gynharach yn y broses (lle y bo'n briodol gwneud hynny).
- 14.8 Nododd y Bwrdd fod RS yn mynd i gynhadledd IAEA ym mis Hydref er mwyn cyflwyno trosolwg o'r gwaith hwn a dymunodd yn dda iddi ar gyfer y cyflwyniad.
- 14.9 Diolchodd EG i'r Bwrdd am y drafodaeth.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Gofynnwyd i'r Bwrdd adolygu'r adroddiad a thrafod y dull gweithredu ar gyfer yr ymchwil hon – WEDI'I ADOLYGU a'i DRAFOD.

- ii. Gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo'r dull gweithredu cymeradwy ar gyfer datblygu safbwynt Cymwysterau Cymru ar gofrestru cynnar a lluosog a mynegi'r safbwynt hwn, yn seiliedig ar ganfyddiadau'r ymchwil. Roedd hyn ar yr amod bod y Bwrdd yn cael cyfle arall i ystyried manylion y safbwynt ar y polisi arfaethedig ac unrhyw argymhellion cysylltiedig, yn ogystal â chopi o'r adroddiad ymchwil terfynol - WEDI'I GYMERADWYO.

15 Adolygiad Bagloriaeth Cymru

- 15.1 Ymunodd Catrin Verrall (CV) a Kerry Davies (KD) â'r cyfarfod. Croesawodd y Cadeirydd y ddau ohonynt i'w cyfarfod Bwrdd cyntaf.
- 15.2 Nododd EG gyd-destun yr ymchwil a rhoddodd drosolwg o strwythur cymhwyster Bagloriaeth Cymru.
- 15.3 Roedd yr angen am yr ymchwil wedi codi o adolygiad cyntaf Bagloriaeth Cymru, a gynhaliwyd yn 2015/16, a nododd bryderon ynghylch rhoi Bagloriaeth Cymru ar waith a chododd gwestiynau ynghylch:
 - a. maint y Dystysgrif Her Sgiliau a pha mor hydrin ydyw;
 - b. y posibilrwydd o ddyblygu dysgu ar lefelau gwahanol Bagloriaeth Cymru;
 - c. p'un a ddylai Bagloriaeth Cymru ganolbwyntio ar y Dystysgrif Her Sgiliau;
 - d. y gofyniad i holl elfennau Bagloriaeth Cymru gael eu hastudio ar yr un lefel.
- 15.4 Er mwyn archwilio'r pryderon hyn, roedd Cymwysterau Cymru wedi comisiynu sefydliad ymchwil i gynnal adolygiad manwl o fodel dylunio ac asesu'r Dystysgrif Her Sgiliau a'i lle ym Magloriaeth Cymru, ar bob lefel.
- 15.5 Roedd y Pwyllgor Rheoleiddio wedi nodi'r dull gweithredu ar gyfer cynnal yr adolygiad hwn ym mis Medi 2016, ac awgrymu pennu amserlenni realistig. O ganlyniad, diwygiwyd yr amserlen wreiddiol ac mae'r adolygiad yn mynd rhagddo'n dda ac o fewn yr amserlen arfaethedig.
- 15.6 Trafododd y Bwrdd yr adroddiad drafft yn fanwl iawn, gan wneud arsylwadau amrywiol.
- 15.7 Gofynnodd y Bwrdd i Sefydliadau Addysg Uwch yn Lloegr gael mwy o gyfle i gyfrannu at y pwnc.

Cam Gweithredu: EG a'i gydweithwyr i sicrhau bod SAUau yn Lloegr yn cael y cyfle i gymryd rhan yn y gwaith ymchwil

- 15.8 Nododd y Bwrdd y byddai'r pwnc yn dychwelyd i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2017 i'w drafod ymhellach.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Gofynnwyd i'r Bwrdd nodi'r newyddion diweddaraf a chefnogi'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer cwblhau'r ymchwil a datblygu argymhellion i roi'r canfyddiadau ar waith – WEDI'I NODI a'i GEFNOGI.

16 Rheoli Risg

- 16.1 Cyflwynodd HB y papur rheoli risg a'r atodiadau ategol. Amlinellodd HB y prif eitemau a nodwyd yn y papur, gan gynnwys y risg newydd a oedd wedi'i hychwanegu at y gofrestr risg sefydliadol, y rhai a oedd wedi lleihau yn eu sgôr a'r rhai a oedd wedi dod i ben.
- 16.2 Trafododd y Bwrdd y risgiau newydd a oedd wedi'u hychwanegu (Safonau'r Gymraeg – effaith ar gyrff dyfarnu, monitro cymwysterau galwedigaethol (Cymorth Cyntaf) a thynnu dynodiad yn ôl) a nododd y newyddion diweddaraf arall yn y papur. Daeth y Bwrdd i'r casgliad fod y sgôr risgiau'n gyffredinol yn adlewyrchu'r problemau mawr roedd y sefydliad yn eu hwynebu a/neu yn eu rheoli. Nododd y Bwrdd yr adroddiad.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Gofynnwyd i'r Bwrdd nodi'r gofrestr risg sefydliadol ddiweddaraf a'r adroddiad risg lefel Bwrdd ategol. Hefyd, nododd y Bwrdd y bydd yr awydd i fentro'n cael ei adolygu yn yr hydref – WEDI'I NODI.

17 Newyddion diweddaraf y Pwyllgor Rheoleiddio

- 17.1 Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor y newyddion diweddaraf ynghylch y prif feysydd busnes o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 19 Mehefin. Nid oedd y cofnodion ar gael eto am fod cyfarfod y Pwyllgor a chyfarfod y Bwrdd mor agos i'w gilydd. Roedd y prif eitemau a drafodwyd gan y Pwyllgor yn ymwneud â monitro cymwysterau galwedigaethol Cymorth Cyntaf, cyfres arholiadau'r haf, adolygiad sector AAA, Cosbau Ariannol ac ymchwil Cofrestru'n Gynnar - yr oedd y Bwrdd y trafodwyd y rhan fwyaf ohonynt yn gynharach ar agenda'r Bwrdd.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Gofynnwyd i'r Bwrdd nodi adroddiad y Pwyllgor fel y'i cyflwynwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor – WEDI'I NODI

18 Newyddion diweddaraf y Pwyllgor Adnoddau

- 18.1 Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor y newyddion diweddaraf ynghylch y prif feysydd busnes o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 3 Gorffennaf. Nid oedd y cofnodion ar gael eto am fod cyfarfod y Pwyllgor a chyfarfod y Bwrdd mor agos i'w gilydd. Roedd y prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor yn ymwneud ag adolygiad manwl a chymeradwyo polisiâu AD (cyfres addas i deuluoedd), y

newyddion diweddaraf ar fframwaith strategol y sefydliad, y newyddion diweddaraf ariannol manwl a'r newyddion diweddaraf AD cyffredinol.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- ii. Gofynnwyd i'r Bwrdd nodi adroddiad y Pwyllgor fel y'i cyflwynwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor – WEDI'I NODI

19 Newyddion Diweddaraf y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

- 19.1 Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor y newyddion diweddaraf ynghylch y prif feysydd busnes o gyfarfodydd diwethaf y Pwyllgor ar 8 Mehefin ac 11 Gorffennaf. Roedd y cofnodion wedi'u cynnwys gyda phapurau'r Bwrdd ar gyfer cyfarfod 8 Mehefin, ond nid oeddent ar gael eto ar gyfer cyfarfod 11 Gorffennaf am fod cyfarfod y Pwyllgor a chyfarfod y Bwrdd mor agos i'w gilydd. Roedd y prif eitemau a drafodwyd yn y cyfarfod Pwyllgor yn ymwneud â chyfrifon ariannol 2016/17, y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) ac archwiliad at wraidd risgiau rheoli data, adroddiad archwilio mewnol ar reoli grantiau a'r trefniadau rheoli ariannol (system fynediad – adolygiad TGCh).
- 19.2 Tynnodd Cadeirydd y Pwyllgor sylw at y ffaith y rhoddwyd sgôr sicrwydd cyfyngedig i'r archwiliad o'r system ariannol (system fynediad – adolygiad TGCh). Y prif feysydd pryder oedd:
- Y diffyg trefniadau monitro cyfrifon cyflenwyr a sefydlwyd yn ystod profion ac, o ganlyniad, y cyfrifon hyn yn cael eu gadael ar agor;
 - Rhai hawliau mynediad anghywir i staff Cymwysterau Cymru a oedd wedi bod yn rhan o brofi'r trefniadau sefydlu;
 - Defnydd gan ddarparwr cyfrif gweinyddwr y system nad yw'n gallu cael ei olrhain, ar hyn o bryd, i unigolyn yn y ddesg gymorth.
- 19.3 Roedd y pwyllgor wedi trafod adroddiad yr archwiliad yn fanwl ac roedd wedi'i sicrhau gan y prosesau sydd eisoes ar waith a'r camau gweithredu a nodwyd yn yr adroddiad. Nid oedd gan y Pwyllgor bryderon i'w codi gyda'r Bwrdd.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- iii. Gofynnwyd i'r Bwrdd nodi adroddiad y Pwyllgor fel y'i cyflwynwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor - WEDI'I NODI

20 Penderfyniadau a wnaethpwyd y tu allan i'r Pwyllgor

- 20.1 Nid oedd unrhyw eitemau i'w codi o ran penderfyniadau a wnaethpwyd y tu allan i'r Pwyllgor.

21 Dyddiadau'r Cyfarfodydd Nesaf

21.1 Cadarnhaodd HB y calendr o gyfarfodydd i ddod. Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 25 Hydref 2017 gyda Diwrnod Datblygu Bwrdd wedi'i drefnu ar gyfer 19 Medi 2017.

22 Unrhyw Fater Arall

22.1 Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw fater arall. Gofynnodd un aelod o'r Bwrdd a ellid cynyddu'r trefniadau cyfathrebu â'r Bwrdd am y gweithgarwch allweddol yn y sefydliad fel bod aelodau'r Bwrdd yn fwy hyddysg ymlaen llaw.

Cam Gweithredu: HB i roi gwybodaeth i'r Bwrdd yn gynharach am weithgareddau i ddod er gwybodaeth i'r Bwrdd.

22.2 Gofynnodd y Cadeirydd i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod rannu eu barn ar y ffordd y mae'r Bwrdd wedi ychwanegu gwerth at waith y sefydliad / sefydliadau drwy gydol y diwrnod. Rhannodd y rhai a oedd yn bresennol eu barn, ac roedd enghreifftiau yn cynnwys:

- Roedd yr eitemau sail ymchwil wedi rhoi cyfle i'r Bwrdd gael mewnbwn cynnar i'r cynlluniau cyhoeddi arfaethedig ar gyfer pob adroddiad. Cafodd hyn ei groesawu. Yn yr un modd, roedd hyn yn wir ar gyfer adolygiad sector AAA (Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig).
- Y drafodaeth gadarn am drefniadau rheoli ariannol.
- Teimlwyd bod ansawdd uchel y drafodaeth mewn nifer o eitemau ar yr agenda yn adeiladol, yn heriol ac yn gefnogol.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:50.

Diwedd